

# **Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220 Mai 2022**

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

## Contents

Cyflwyniad - Esboniad o'r Cynnig Ymgynghori .....	4
Y Broses Ymgynghori .....	4
Yr ysgol(ion) a effeithir gan y cynnig hwn .....	8
Y Cynnig - Pam ein bod yn cynnig y newidiadau? .....	10
Cefndir.....	11
Y Rhesymeg dros Newid.....	13
Gwerthuso'r Trefniadau Presennol.....	14
Effaith y cynnig ar ansawdd a safonau addysg .....	17
Effaith y cynnig ar brofiadau addysgu a dysgu .....	17
Effaith y cynnig ar ofal, cefnogaeth ac arweiniad .....	18
Effaith y cynnig ar arweinyddiaeth a rheoli .....	19
Effaith y Cynnig.....	20
Costau cludiant .....	21
Trefniadau pontio .....	21
Manteision ac Anfanteision y Cynnig.....	22
Risgiau .....	22
Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg .....	23
Goblygiadau ariannol – Cyllid.....	24
Ariannu adeilad newydd yr ysgol.....	25

# **Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220**

Trefniadau derbyn .....	25
Dewisiadau eraill a ystyriwyd .....	26
Asesiad o'r effaith ar gludiant .....	27
Sut fydd y cynnig yn effeithio ar staff .....	27
Derbyniadau cyfalaf.....	27
Effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg .....	27
Cydraddoldeb .....	28
Yr effaith ar y gymuned .....	28
Cynaliadwyedd .....	29
Y camau nesaf - Sut i leisio eich barn .....	29
Beth fydd yn digwydd nesaf? .....	30
Atodiad 1- Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn ffurfiol .....	33

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

## Cyflwyniad - Esboniad o'r Cynnig Ymgynghori

Mae'r Ymgynghoriad hwn yn gyfle i'r gymuned leol a'r gymuned yn ehangach i ddysgu am y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220. Fe fydd yr ysgol yn symud i gyfleuster newydd sbon wedi ei adeiladu'n bwrpasol yn nhref Dinbych i alluogi'r cynnydd.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi gwybodaeth y bydd angen i ymgynghoreion ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses hon yn dilyn y canllawiau rheoleiddiol a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

I wneud cais am gopi caled o'r ddogfen ymgynghori e-bostiwch

[moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk](mailto:moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk)

Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau ar **17 Mai 2022** ac yn gorffen ar **27 Mehefin 2022**.

### Yr Ymgynghoriad

Mae'r cynnig ymgynghori hwn wedi ei lunio gan gynnwys gwybodaeth a nodir yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru ac mae'n nodi'r wybodaeth a fydd ei hangen ar bobl i gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dymuno cael safbwyntiau pawb sydd â diddordeb tebygol mewn unrhyw newidiadau i Ysgol Plas Brondyffryn. Mae'n bwysig y gellir rhoi ystyriaeth i bob safbwynt cyn i benderfyniad gael ei wneud.

Mae fersiwn atodol i'r cynnig ymgynghori ffurfiol hwn wedi ei lunio ar gyfer ac ar gael i blant a phobl ifanc sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig presennol. Mae'r fersiwn atodol wedi ei hysgrifennu'n benodol i alluogi plant a phobl ifanc i ddeall yn well ac ymgysylltu gyda'r ymgynghoriad ffurfiol.

### Y Broses Ymgynghori

Fe fydd y broses ymgynghori yn dilyn y canllawiau a amlinellir gan Lywodraeth Cymru fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018)

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

## Gyda phwy yr ymgynghorir â nhw?

Fe fydd y ddogfen hon yn cael ei hanfon at y canlynol:

Yr holl staff - addysgu ac ategol - Ysgol Plas Brondyffryn	Gweinidogion Cymru
Rhieni / Gwarcheidwaid a Llywodraethwyr yn Ysgol Plas Brondyffryn	Yr Aelod Cynulliad (AC)/Aelodau Rhanbarthol/Aelodau Seneddol (AS)
Yr holl ysgolion yn Sir Ddinbych - penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr	Partneriaid AAA
Holl Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru	Estyn
Yr Eglwys yng Nghymru a'r Awdurdod Esgobaethol Catholig	Yr holl undebau perthnasol
Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Partneriaeth Leol Cymunedau yn Gyntaf	Y cyrff iechyd perthnasol sydd â buddiant
Cyngor Tref Dinbych	Yr holl Gynghorwyr

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

## Y Cyfnod Ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau ar **17 Mai 2022** ac yn gorffen ar **27 Mehefin 2022**.

Bydd y ddogfen ymgynghori yn cael ei chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Ddinbych:

<https://countyconversation.denbighshire.gov.uk/projectcy/680>

## Ystyried eich safbwyntiau

Fe allwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau'r ffurflen ymateb - Atodiad A.

Anfonwch yr holl ymatebion at:

E-bost - [moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk](mailto:moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk)

Post - Moderneiddio Addysg, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ

NODER - Mae'n rhaid i'r holl ymatebion gyrraedd erbyn hanner nos **Dydd Llun 27 Mehefin 2022** fan bellaf.

Oherwydd y nifer uchel o ymatebion sydd yn dod i law wrth ymgynghori ar opsiynau, ni fyddwn yn gallu cydnabod ymatebion ysgrifenedig na chyfathrebu â phartïon â diddordeb yn ystod nac ar ôl y cyfnod ymgynghori.

Fodd bynnag bydd eich sylwadau yn cael eu hystyried ac fe ymatebir iddynt drwy gyhoeddi adroddiad ôl ymgynghori.

## Cyfarfodydd

Byddwn hefyd yn cynnal sesiynau gwybodaeth ar gyfer rhieni ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb yn ystod y cyfnod ymgynghori. Fe fydd yna sesiynau 10 munud a fydd yn cael eu trefnu drwy apwyntiad yn unig ac fe fyddant yn cael eu cynnal ar-lein drwy Zoom neu Teams neu fel arall drwy gynhadledd ffôn.

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

Yn y sesiynau hyn byddwch yn gallu siarad â chynrychiolwyr o'r ysgol a Chyngor Sir Ddinbych a fydd ar gael i ateb eich cwestiynau. Byddant yn cael eu cynnal ar Dydd Mawrth 24 Mai rhwng 4-7pm. E-bostiwch [moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk](mailto:moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk) i drefnu apwyntiad.

## Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc

Fe fydd cyfle i'r disgyblion yn Ysgol Plas Brondyffryn i gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a fydd yn cael ei chynnal yn yr ysgol.

## Amserlen

	Dyddiad
Y cyfnod ymgynghori ffurfiol	Mai / Mehefin 22
Y Cabinet - i gytuno i gyhoeddi Hysbysiad Statudol	Medi 22
Cyfnod yr Hysbysiad Statudol	Hydref 22
Y Cabinet - Adroddiad gwrthwynebu - llunio penderfyniad	Tachwedd 22
Cyflwyno Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru	Tachwedd 22
Adeiladu - yn ddibynnol ar bob cymeradwyaeth	Chwefror 23 – Medi 24

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

Gweithredu'r Cynnig	Medi 2024
---------------------	-----------

## Yr ysgol(ion) a effeithir gan y cynnig hwn

**Enw'r Ysgol:** Ysgol Plas Brondyffryn

**Lleoliad yr Ysgol:** 4 lleoliad yn Ninbych:

Safle Cynradd - LL16 3DP

Safle Uwchradd - LL16 3DR

Tŷ'r Ysgol- LL16 4ST

Preswyl - Gerddi Glasfryn, LL16 4ST

**Sir:** Sir Ddinbych

**Ystod Oedran:** 3-19

**Categori'r Ysgol - Cymunedol, Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir, Ysgol Wirfoddol a Reolir, Arbennig:** Ysgol Arbennig

**Nifer y disgyblion ar y gofrestr:**

Ionawr 2021	Ionawr 2020	Ionawr 2019	Ionawr 2018	Ionawr 2017
137	137	133	140	128

**Amcanestyniadau disgyblion:** 2023-2027: Amherthnasol

**Capasiti:** 116



# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

**Cost fesul disgybl (2021-22):** £23,957

**Cyllideb yr Ysgol (2021-22):** £3.3m

**Canlyniad Arolwg Estyn:**

[https://www.estyn.llyw.cymru/node/5047?\\_ga=2.134910321.1631217749.1650879118-146053272.1650879118](https://www.estyn.llyw.cymru/node/5047?_ga=2.134910321.1631217749.1650879118-146053272.1650879118)

**Categori'r Ysgol (2019) :** Melyn

**Categori Cyflwr yr Adeilad:** Cynradd- B

Uwchradd- B

Ty'r Ysgol- B

## Arolygiadau Estyn

Cynhaliwyd arolwg diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn ym mis Gorffennaf 2016.

Gellir gweld yr adroddiad llawn ar-lein:

[https://www.estyn.llyw.cymru/node/5047?\\_ga=2.230249372.1631217749.1650879118-146053272.1650879118](https://www.estyn.llyw.cymru/node/5047?_ga=2.230249372.1631217749.1650879118-146053272.1650879118)

Yn ystod pob arolwg nod yr arolygwyr yw ateb 3 cwestiwn allweddol:

1. Pa mor dda yw'r canlyniadau?
2. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
3. Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheoli?

Yn y gwerthusiadau hyn mae yna raddfa 4 pwynt;

## Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

Dyfarniad	Beth mae'r dyfarniad yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau allweddol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig lle mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Y cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Y meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Caiff dyfarniadau'r arolwg ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn eu dangos isod:

Maes Arolygu	Dyfarniad
1. Pa mor dda yw'r canlyniadau?	Da
2. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
3. Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheoli?	Da


### Y Cynnig - Pam ein bod yn cynnig y newidiadau?

Cynnig yw hwn i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220. Fe fydd yr ysgol yn symud i gyfleuster newydd sbon wedi ei adeiladu'n bwrpasol yn nhref Dinbych i alluogi'r cynnydd.

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

Nid yw'r cynnig hwn yn cynnwys y ddarpariaeth breswyl - Gerddi Glasfryn. Fe fydd y ddarpariaeth hon yn parhau i fod yn hygyrch i ddisgyblion Ysgol Plas Brondyffryn.

Mae'r safle arfaethedig ar y cae chwaraeon presennol sydd wedi ei leoli ar hyd Ffordd Ystrad, Dinbych, gerllaw Canolfan Hamdden Dinbych.



Mae'r safle yn eiddo i Gyngor Sir Ddinbych ac ar hyn o bryd mae'n rhan o safle Ysgol Uwchradd Dinbych. Fe fydd trafodaethau'n cael eu cynnal ochr yn ochr â'r prosiect hwn gydag Ysgol Uwchradd Dinbych yn ymwneud â'r goblygiadau i'r ysgol o ran y newid defnydd hwn. Mae hyn hefyd yn ddibynnol ar ganiatâd cynllunio.

## Cefndir

Mae Ysgol Plas Brondyffryn yn ysgol arbennig gyd-addysgol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer disgyblion o 3 oed i 19 oed gyda Chyflwr Sbectrwm Awtistig (ASC) ac anawsterau dysgu cysylltiedig. Cafodd Ysgol Plas Brondyffryn ei sefydlu'n wreiddiol fel darpariaeth wedi ei lleoli yn Neuadd Plas Brondyffryn, eiddo o'r 19<sup>fed</sup> ganrif yn Sir Ddinbych. O ganlyniad i gynydd yn y galw am y ddarpariaeth yn nechrau'r 2000au fe adawodd yr ysgol y cyfleuster hwn a sefydlu lleoliadau yn cydffinio ag Ysgol Frongoch ac Ysgol Uwchradd Dinbych ar gyfer darpariaeth gynradd ac uwchradd. I gefnogi hyn fe aeth

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

y Cyngor i brydles hir ar gyfer safle Gwynfryn gyda Llywodraeth Cymru, safle a arferai fod yn rhan o safle Ysbyty Gogledd Cymru, ar gyfer darpariaeth breswyl ac angen yn y pen uchaf.

Mae gan yr holl ddisgyblion a gaiff eu derbyn i'r ysgol Ddatganiad o Angen Addysgol Arbennig yn dangos awtistiaeth fel y prif angen. Mae'r ysgol wastad wedi ei hystyried fel darpariaeth sy'n darparu ar gyfer disgyblion o bob cwr o Sir Ddinbych a thu hwnt gyda disgyblion o Sir y Fflint, Wrecsam a Gwynedd yn derbyn addysg gan y ddarpariaeth.

Mae Ysgol Plas Brondyffryn wedi ei lleoli ar hyn o bryd yn Ninbych dros 4 safle - mae'r cynnig cynradd yn Nhy'n Fron, y cynnig uwchradd yn Lôn Parc, mae'r disgyblion gyda'r anghenion mwy cymhleth yn Nhŷ'r Ysgol a'r ddarpariaeth breswyl yng Ngerddi Glasfryn.

Anaml y mae disgyblion a staff o bob safle yn dod at ei gilydd ac mae'r safleoedd hyn yn gweithredu'n unigol.

Mae capasiti mewn ysgol arbennig bob amser yn anodd i'w benderfynu gan ei fod yn dibynnu ar anghenion disgyblion, a all amrywio'n fawr. Y capasiti arferol yn yr ysgol yw 116, ar hyn o bryd mae gan yr ysgol 136 o ddisgyblion ar y gofrestr (niferoedd Medi 2021).

Fel y mae'r tabl isod yn ei ddangos mae gorgapasiti wedi bod o ran yr ysgol ers y 6 blynedd diwethaf:

Blwyddyn	lon 16	lon 17	lon 18	lon 19	lon 20	lon 21
Niferoedd disgyblion	124	128	140	133	137	137

Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol 10 o ddisgyblion ar restr aros gyda'r posibilrwydd o 10 arall a fydd angen cael lle yn yr ysgol yn fuan iawn.

Mae pandemig Covid wedi effeithio ar y nifer o asesiadau sydd wedi eu cynnal. Ar hyn o bryd mae yna 63 o ddisgyblion yn aros am asesiadau. Yn seiliedig ar dueddiadau

# **Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220**

blaenorol fe fyddai hyn yn mynd â nifer y disgyblion sy'n gymwys i fynychu'r ysgol yn agos i 180 o ddisgyblion.

Nid yw effaith y pandemig wedi ei ddeall yn llawn eto, fodd bynnag mae'r Awdurdod Lleol yn credu y bydd y galw am y mathau hyn o leoedd yn cynyddu dros y blynnyddoedd nesaf ac felly mae'r capasiti arfaethedig o 220 yn yr adeilad newydd, a fydd yn agor yn niwedd 2024, yn rhesymol.

## **Y Rhesymeg dros Newid**

Nod y prosiect hwn, yn ogystal â chynyddu capasiti'r ysgol, yw i ddod â'r holl ddysgwyr a staff ar un safle mewn cyfleuster newydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol.

Fel rhan o'r cynnig hwn fe fydd adeilad newydd yn cael ei godi ar y caeau chwarae yn Ysgol Uwchradd Dinbych - yn ddibynnol ar ganiatâd cynllunio a chyllido. Fe fydd hyn yn galluogi gwagio'r safleoedd presennol a galluogi'r holl ddysgwyr i gael eu lleoli ar un safle yn hytrach na'r tri safle a ddefnyddir ar hyn o bryd.

Fe fydd y cyfleuster newydd yn creu gwell amgylchedd o ansawdd uchel ar gyfer dysgu hyblyg i alluogi'r ysgol i gyflawni gofynion newidiol y cwricwlwm i fodloni anghenion y disgyblion a'u helpu i gyflawni eu llawn botensial. Fe fydd y prosiect yn gwella'r sefydlogrwydd ariannol cyffredinol ar gyfer yr ysgol o ran yr holl ddisgyblion ar yr un safle yn hytrach nac ar 3 safle ar wahân. Nid yw'r cynnig hwn yn cynnwys y ddarpariaeth breswyl - Gerddi Glasfryn. Fe fydd y ddarpariaeth hon yn parhau i fod yn hygyrch i ddisgyblion Ysgol Plas Brondyffryn.

Fe fydd y prosiect yn creu'r cyfle i ddatblygu cyfleusterau rhagorol a fydd yn gwella profiad addysgol y plant yn yr ysgol. Fe fydd y prosiect hefyd yn archwilio darpariaeth Ôl 16 a pha gyfleusterau y gallai'r rhain eu darparu i ddisgyblion a'r gymuned ehangach e.e. caffi.

Bydd gan yr ysgol newydd y manteision canlynol:

- Cynyddu'r lleoedd sydd ar gael ar gyfer disgyblion yn yr ardal gyda Chyflwr Sbectwm Awtistig;

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

- Cyfleusterau ysgol yr 21<sup>ain</sup> Ganrif i ddiwallu anghenion plant gyda Chyflwr Sbectwm Awtistig;
- Gwell amgylchedd dysgu a chyfleusterau fel ystafelloedd synhwyrdd, ystafelloedd therapi arbenigol ayb.
- Mwy o ofod a gwell darpariaeth chwarae;
- Gwell darpariaeth ar gyfer addysgu sgiliau bywyd a sgiliau galwedigaethol i bobl ifanc;
- Diddymu'r gofyniad i staff a disgyblion symud rhwng safleoedd.

## Gwerthuso'r Trefniadau Presennol

Ar hyn o bryd mae'r ysgol dros 4 safle:

- Yr adran gynradd - agorodd yr adran ym Medi 2006 ac mae'n darparu ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed,
- Yr adran uwchradd - agorodd yr adran uwchradd yn Nhachwedd 2004, ac mae'n darparu ar gyfer disgyblion 11 i 19 oed,
- Tŷ'r Ysgol - disgyblion uwchradd a disgyblion ôl-16 gydag anghenion mwy cymhleth.
- Gerddi Glasfryn - darpariaeth breswyl - nid yw hwn yn rhan o'r cynnig hwn - fe fydd disgyblion o'r ysgol yn parhau i allu cael mynediad i'r ddarpariaeth hon.

## Cynradd

Ar hyn o bryd mae safle cynradd yr ysgol wedi ei leoli yn Ninbych, wrth ymyl Ysgol Frongoch, sy'n ysgol gynradd. Mae Arolwg Cyflwr a wnaed yn 2020 yn nodi fod y safle hwn wedi ei ddosbarthu fel B - Boddhaol. Yn gyffredinol mae'r safle mewn cyflwr boddhaol, fodd bynnag mae yna feysydd lle mae angen sylw i uwchraddio neu wella.

Mae yna nifer o broblemau gyda'r safle - mae hyn yn cynnwys rhai ystafelloedd dosbarth sy'n rhy fach ar gyfer nifer y disgyblion ynddynt. O ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y disgyblion mae'r ystafell gyfrifiaduron bellach yn ystafell ddosbarth ac ychydig o

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

ystafelloedd adnoddau sydd yna i'r disgyblion eu defnyddio. Nid oes yna unrhyw ardaloedd seibiant i ddisgyblion sydd angen ymagwedd fwy unigol neu a allai fod angen cyfnodau byr o amser oddi wrth y grŵp llawn.

Yn nifer o'r ystafelloedd dosbarth mae yna bethau sy'n tynnu sylw – adnoddau anniben o ganlyniad i'r diffyg manau storio a sanciau sy'n weledol. Dim ond 1 ystafell dawelu sydd yna ac nid oes yna larwm cymorth wedi ei osod yma. Mae'r ystafell chwarae meddal yn bwysig iawn i'r ysgol ond mae bellach yn rhy fach ar gyfer anghenion yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhannu'r ffreutur / neuadd gydag Ysgol Frongoch. Caiff y neuadd ei defnyddio ar gyfer Addysg Gorfforol ac ar gyfer bwyta. O ganlyniad i gynllun ac acwsteg y neuadd, hyd yn oed cyn pandemig Covid, ychydig o ddisgyblion a oedd yn teimlo'n ddigon cyfforddus i fwyta yma ac roedd nifer o ddisgyblion yn bwyta eu cinio yn eu hystafelloedd dosbarth. Mae rhannu'r Cyfleuster hwn hefyd yn golygu fod gan ddisgyblion yn yr ysgol y cyfnod hwyrach i fwyta - mae hyn tua 1 o'r gloch. O ystyried fod nifer o ddisgyblion yn teithio i'r ysgol ar gludiant ysgol ac felly yn gadael eu cartrefi'n gynnar, nid yw'r amser hwnnw'n ddelfrydol o bell ffordd.

Yn nhermau defnyddio'r neuadd ar gyfer Addysg Gorfforol, nid yw disgyblion yn mwynhau'r gofod hwn - yn ogystal â'r acwsteg wael mae yna hefyd biler mawr yng nghanol y neuadd a all achosi problemau gyda gemau penodol.

Yn allanol mae yna ddiffyg llochesau y tu allan i amddiffyn rhag y glaw a'r haul. Mae gan nifer o ddosbarthiadau'r cyfnod sylfaen fynediad uniongyrchol i'r ardal allanol, fodd bynnag mae'r gofod allanol yn gyfyngedig iawn ac nid yw'n ddelfrydol.

## Uwchradd

Mae adran uwchradd yr ysgol wedi ei lleoli wrth ymyl Ysgol Uwchradd Dinbych. Mae Arolwg Cyflwr a wnaed yn 2020 yn nodi fod y safle hwn wedi ei ddosbarthu fel B-Boddhaol. Yn gyffredinol mae'r safle mewn cyflwr da heb unrhyw ddiffygion mawr.

O ganlyniad i gynnydd yn niferoedd y disgyblion mae nifer o'r ystafelloedd wedi gorfod newid eu defnydd:

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

- Mae'r ystafell ddosbarth cynhwysiant lle byddai disgyblion yn gwneud gwaith ar les a gwaith grŵp bach yn ymwneud ag ymyrraeth wedi ei throi yn ystafell ddosbarth.
- Mae ystafell Gerdd/Dylunio a Thechnoleg wedi ei throi'n flaenorol yn ystafell ddosbarth - mae'n ystafell gerddoriaeth ar hyn o bryd ond hefyd yn ystafell fwytia.
- Mae ystafell gyffredin y chweched dosbarth nawr yn ystafell ddosbarth.
- Caiff yr ystafell synhwyrdd ei defnyddio fel ystafell addysgu fach yn hytrach nag ardal seibiant.
- Roedd yr ystafell TG yn cael ei defnyddio ar gyfer gwasanaethau cyn y pandemig - ac roedd yn rhaid i'r byrddau gael eu clirio o'r ystafell gyda'r disgyblion yn cario eu cadeiriau eu hunain i mewn - roedd hyn hefyd yn creu ystafell a oedd yn rhy llawn o ystyried niferoedd y disgyblion.

Gofod cyfyngedig sydd yna ar gyfer cyfarfodydd gyda rhieni a chyfarfodydd amlddisgyblaethol. Mae un dosbarth chweched dosbarth nawr wedi ei leoli drws nesaf yn Ysgol Uwchradd Dinbych sy'n effeithio ar ymdeimlad y disgyblion o berthyn.

Mae'r cynnydd yn niferoedd y disgyblion wedi golygu fod yr iard yn rhy fach i'r holl ddisgyblion gael egwyl gyda'i gilydd, mae hyn wedi golygu fod yr amserlen wedi gorfod cael ei newid ac amser cinio wedi ei negodi gydag Ysgol Uwchradd Dinbych fel y gellir rhannu grwpiau yn 3 sesiwn. Mae disgyblion yn rhannu'r ffreutur gydag Ysgol Uwchradd Dinbych ac yn aml maent yn cael y slot cinio hwyrach.

Nid yw'r ardal allanol a digon o offer chwarae ar gyfer nifer y disgyblion.

Nid yw'r adeilad yn ddigon hyblyg i gefnogi'r newid yng nghymhlethdod anghenion y disgyblion ac mae'r diffyg gofodau seibiant yn golygu ei bod yn anodd newid ac addasu'r cwricwlwm i ddarparu amserlenni unigol. Caiff sgiliau bywyd eu dysgu yn y fflat breswyl yn Gerddi Glasfryn sydd i ffwrdd o'r safle Uwchradd ac mae'n rhaid i'r disgyblion gael eu cludo yno.

## Anghenion Mwy Cymhleth



# **Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220**

Enw'r safle arall y mae'r ysgol hefyd wedi ei lleoli arno yw Tŷ'r Ysgol a chaiff ei ddefnyddio ar gyfer disgyblion uwchradd ac ôl 16 gydag anghenion mwy cymhleth. Mae Arolwg Cyflwr a wnaed yn 2020 yn nodi fod y safle hwn wedi ei ddosbarthu fel B - Boddhaol. Yn gyffredinol mae'r safle mewn cyflwr boddhaol, fodd bynnag mae yna feysydd lle mae angen sylw i uwchraddio neu wella.

Mae gan yr adeilad broblemau tebyg i'r safleoedd ysgol eraill ac nid oes ardaloedd seibiant ac mae'r coridorau'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd fel gofodau synhwyrdd. Unwaith eto gofodau cyfyngedig sydd yna ar gyfer grŵp bach neu waith 1 i 1. Nid oes yna ardal fwyta ac mae'n rhaid i'r disgyblion fwyta yn yr ystafelloedd dosbarth.

Prif fantais y safle hwn yw'r ardaloedd allanol eang sy'n cynnwys ysgol goedwig a gaiff ei defnyddio gan yr holl ddisgyblion o'r holl safleoedd yn yr ysgol.

## **Effaith y cynnig ar ansawdd a safonau addysg**

O ganlyniad i ystod eang anghenion addysgol arbennig disgyblion nid yw'n briodol i gymharu'r safonau y mae disgybl yn eu cyflawni yn yr ysgol gyda'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Barn yr Awdurdod Lleol yw os bydd y cynnig hwn yn cael ei weithredu, bydd yn cynnal safon ac ansawdd gyfredol yr addysg o leiaf. Bydd gan yr adeilad newydd y cyfarpar i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys i'r holl ddisgyblion o'r cyfnod sylfaen i addysg ôl-16.

Bydd dod â'r holl ddisgyblion a staff at ei gilydd mewn cyfleuster pwrpasol sy'n diwallu eu hanghenion yn cael dylanwad cadarnhaol ar les disgyblion a'u hagwedd at ddysgu.

## **Effaith y cynnig ar brofiadau addysgu a dysgu**

Diben yr ysgol yw i nodi'r cryfderau dysgu a'r meysydd ar gyfer datblygu pob disgybl er mwyn darparu cynlluniau addysg unigol i hyrwyddo a hybu potensial academaidd, personol a chymdeithasol yn unol â 4 diben y Cwricwlwm i Gymru.

# **Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220**

Mae'r 6ed Dosbarth yn cynnig y cyfle i ddisgyblion i ddatblygu'r sgiliau cymdeithasol a'r annibyniaeth sydd ei angen arnynt er mwyn ffynnu ym mha bynnag leoliad y maent yn dymuno mynd pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Fe fydd gan yr adeilad newydd arfaethedig gaffi cymunedol a fydd yn hybu dysgu'r disgybl o amgylch nifer o feysydd cwricwlwm allweddol a bydd yn brofiad dysgu gwerthfawr.

Un o'r prif bryderon ar bob safle ar hyn o bryd yw'r trefniadau bwyta sydd gan ddisgyblion ar hyn o bryd - un ai rhannu cyfleusterau gydag eraill neu fwyta yn yr ystafelloedd dosbarth. Fe fydd gan yr adeilad newydd ardaloedd bwyta cynradd ac uwchradd pwrpasol a bydd yn rhoi'r hyblygrwydd i ddisgyblion i fwyta o fewn grŵp neu ar eu pen eu hunain. Bydd cryn feddwl wedi mynd i'r profiad bwyta a bydd yn sicrhau fod y mwyafrif o fyfyrwyr yn ymgysylltu'n gadarnhaol. I blant gydag awtistiaeth fe all rhannu pryd gyda chymheiriaid arwain at anawsterau arwyddocaol iawn mewn perthynas â sgiliau, hyder a chyfathrebu ac felly mae'n hynod o bwysig i gael yr agwedd hon o'r ddarpariaeth yn iawn a chreu amgylchedd lle gall plant ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ymuno â'r gweithgaredd cymdeithasol cadarnhaol mwyaf sylfaenol hwn.

## **Effaith y cynnig ar ofal, cefnogaeth ac arweiniad**

Ar hyn o bryd caiff disgyblion eu cefnogi'n llawn yn y broses ddysgu ar bob cyfnod allweddol gan Gymorthyddion Addysgu sy'n cefnogi anghenion cymdeithasol/emosïynol unigol drwy waith 1:1 a sgiliau astudio yn ogystal â chlybiau a sesiynau amser cinio creadigol ar gyfer grwpiau targed. Mae Cymorthyddion Addysgu Lefel Uwch yn gweithio o fewn yr holl feysydd pwnc gan gynllunio gwaith gydag arweinwyr pwnc i nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn darparu rhaglenni unigol a grŵp a gaiff eu darparu gan Gymorthyddion Therapi Lleferydd ac Iaith a staff wedi eu lleoli yn y dosbarth.

Mae'r Tîm Cynhwysiant, yn cynnwys cymorthyddion Therapi Lleferydd ac Iaith a gweithwyr cymorth ymddygiad a synhwyraidd, hefyd yn cefnogi ein disgyblion i gael mynediad i'r cwricwlwm drwy nodi rhwystrau i ddysgu a chyflwyno cynlluniau pwrpasol i gefnogi'r disgyblion.

## **Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220**

Fe fydd y cynnig yn sicrhau fod gan yr arbenigwyr hyn, pan fyddant yn dod i'r ysgol, ystafelloedd grŵp bach ac ardaloedd lle gallant weithio'n effeithiol ac yn gyfforddus gyda dysgwyr. Drwy ddod â'r holl staff i un safle mae'r Awdurdod Lleol yn gweld y buddion ar gyfer y staff yn bersonol yn nhermau'r gefnogaeth, arweiniad a datblygiad yn ogystal â'r buddion ar gyfer dysgwyr wrth iddynt symud drwy'r ysgol mewn amgylchedd cyfarwydd gan sicrhau pontio mwy llyfn felly o bob cyfnod allweddol.

### **Effaith y cynnig ar arweinyddiaeth a rheoli**

Fe fydd dod â'r Ysgol gyfan ynghyd ar un safle yn galluogi gweithredu'r sgiliau a'r arbenigedd rheoli yn ôl yr angen ac felly galluogi i reolaeth atebol o wasanaethau hanfodol, timau ac ymyriadau therapiwtig i gael ei fireinio a'i wneud yn effeithiol. Bydd hefyd yn golygu y gellir cael gwared ar ddyblygu cyfredol sy'n ofynnol er mwyn sicrhau darpariaeth ar yr holl safleoedd yn cael ei ddiddymu. Fe fydd y ddarpariaeth newydd hefyd yn caniatáu ar gyfer gweithio aml-ddisgyblaethol a rheoli'r timau hyn yn fwy effeithiol i ddiwallu anghenion penodol disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion gan y bydd yr holl wasanaethau a therapïau ar gael ar yr un safle a gellir cael mynediad iddynt pan fo'u hangen.

Dangoswyd bod pontio rhwng cyfnodau addysg yn arbennig o bwysig, a gellir cryfhau hyn drwy uno safleoedd. Byddai'r uno arfaethedig yn ei gwneud hi'n haws rhannu'r arfer da o bob un o'r safleoedd presennol, ac yn helpu staff i weithio fel un tîm ar draws yr ystod oedran gyfan, gan ddarparu'r gofal a'r addysg orau i fyfyrwyr.

Yr her allweddol sy'n wynebu pob sefydliad ysgol yw datblygu hinsawdd sy'n sicrhau y darperir addysg o ansawdd uchel sy'n gwella'n barhaus. Arweinyddiaeth yw'r ffactor mwyaf dylanwadol wrth lunio diwylliant sefydliadol ac felly mae sicrhau bod yr ymddygiadau, y strategaethau a'r rhinweddau arweinyddiaeth angenrheidiol yn cael eu datblygu yn hanfodol. Mae gweithio ar un safle yn gwneud hyn yn llawer haws ac yn galluogi staff i weithio mewn partneriaeth yn fwy effeithiol.

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

## Effaith y Cynnig

Fe fydd y cynnig hwn yn sicrhau y bydd adeilad newydd yr ysgol yn bodloni anghenion dysgwyr a bydd yn sicrhau fod gan Sir Ddinbych ddigon o leoedd i ddisgyblion fel hyn ar gyfer y dyfodol.

Ar hyn o bryd ni ellir diwallu'r galw am y math yma o leoedd ac mae'n rhaid i ddisgyblion aros yn eu hysgol bresennol neu maent allan o addysg.

Mae disgyblion yn ymuno â'r ysgol ar wahanol gyfnodau yn eu taith addysgol, yn ddibynnol ar nifer o ffactorau sy'n unigryw i bob disgybl, eu hangen a'u sefyllfa. Fel y mae'r rhifau isod yn dangos nid yw proffil oed y disgyblion yn wastad ar draws yr ysgol gyfan.

Mae niferoedd presennol y disgyblion fesul Blwyddyn isod - wedi eu cymryd o Fedi 2021:

Meit hrin	Derb yn	Blwyd dyn 1	Blwyd dyn 2	Blwyd dyn 3	Blwyd dyn 4	Blwyd dyn 5	Blwyd dyn 6	Blwyd dyn 7	Blwyd dyn 8
0	1	2	5	8	6	2	9	20	11

Blwyddyn 9	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13	Blwyddyn 14
21	15	11	11	10	4

Am y tro cyntaf ym Medi 2021, mae 7 disgybl wedi methu symud o'r safle cynradd ym Mlwyddyn 6 i'r safle uwchradd ym Mlwyddyn 7 o ganlyniad i ddiffyg gofod yn y safle uwchradd. Ar gyfer Medi 2022 fe fydd y sefyllfa hon yn parhau gyda 3 o ddisgyblion a ddylai symud i safle Tŷ'r Ysgol yn gorfod aros yn yr adran gynradd o ganlyniad i ddiffyg gofod. Fe fydd y disgyblion Blwyddyn 7 sydd ar hyn o bryd yn y safle cynradd yn symud i'r safle uwchradd, fodd bynnag fe fydd yn rhaid i ddisgyblion Blwyddyn 7 a gaiff eu derbyn

# **Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220**

o'r newydd, a sy'n dod i'r ysgol am y tro cyntaf, fynychu'r safle cynradd - ar hyn o bryd mae 6 disgybl wedi eu cadarnhau.

Y tu hwnt i'r ddarpariaeth anghenion uwch, mae'r ysgol wedi ei strwythuro fel ysgol arbennig ar gyfer pob oed. Fe fydd rhai disgyblion yn dechrau ar eu taith yn y cyfnod sylfaen ac yn mynd ymlaen trwy'r cynradd i'r uwchradd, ôl 16 a thu hwnt. Fe fydd eraill yn ymuno ar gyfnodau gwahanol yn eu taith fywyd, fel arfer fel yr ystyrir nad ysgol prif ffrwd sy'n diwallu eu hangen orau bellach.

Mae pontio yn hynod o anodd bob amser i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol a bydd natur pob oed yr ysgol hon mewn un adeilad yn galluogi meddalw'r pontio hwn gan fod amgylchedd, systemau a pholisïau'n gyfarwydd.

## **Costau cludiant**

Fe fydd trefniadau cludiant yn parhau i gael eu gwneud yn unol â pholisi cludiant o'r cartref i'r ysgol y Cyngor Sir.

## **Trefniadau pontio**

Fe fydd disgyblion yn parhau yn safleoedd presennol yr ysgol hyd nes y bydd yr adeilad newydd yn barod i'w ddefnyddio.

Wrth i'r adeiladu fynd rhagddo fe fydd disgyblion yn cael eu gwahodd i ymweld â'r safle ar amseroedd priodol gyda staff.

Fe all mynd i sefyllfa newydd (e.e. dosbarth newydd ac at athro/athrawes newydd) fod yn gyfnod sy'n achosi straen i unrhyw ddisgybl, ond i ddisgyblion gyda Chyflwr Sbectwm Awtistig fe all y diffyg rheolaeth dros y newid a'r cysyniad o symud i sefyllfa newydd gyda phobl newydd a threfn ddyddiol newydd fod yn hynod o fygythiol. Fe fyddwn yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i reoli'r pontio i'r adeilad newydd mewn modd fel y byddwn yn lleddfu unrhyw straen. Fe fydd yr ysgol yn arwain ar hyn i sicrhau fod y disgyblion wedi eu paratoi'n dda i symud i'r adeilad newydd.

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

## Manteision ac Anfanteision y Cynnig

Manteision:

- Cynyddu capasiti'r ysgol.
- Teilwra i anghenion yr ysgol - nodweddion cyfeillgar i awtistiaeth - cyfleusterau sy'n addas ar gyfer dysgu yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.
- Yr holl ddisgyblion a staff ar yr un safle.
- Pontio disgyblion drwy'r cyfnodau allweddol yn llawer haws ar un safle.
- Ystafelloedd sy'n benodol i bynciau e.e. labordy gwyddoniaeth.
- Cyfleoedd menter y bydd adeilad newydd yn eu galluogi.
- Cludiant i gyd yn dod i un safle.
- Mae'r safle arfaethedig yn eiddo i CSDd.
- Byddai'r gwaith adeiladu yn cael ei wneud draw oddi wrth safleoedd presennol yr ysgol, ac felly ychydig iawn o darfu fydd yna ar ddysgu disgyblion.

Anfanteision:

- Cynnydd mewn traffig ar y safle gan fod yr holl gludiant yn dod i un safle.
- Ardal chwarae i bawb - a fydd yn rhy swnllyd?
- Byddai angen ymgynghoriad ar drefniadaeth yr ysgol mewn perthynas â'r cynnydd mewn capasiti a newid lleoliad.
- Angen cymeradwyaeth i'r achos busnes gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid grant 75% i adeiladu'r ysgol newydd.

## Risgiau

Risg	Lliniaru
------	----------

## Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig.	Fe fydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol a'r Llywodraethwyr i sicrhau fod pawb yn gefnogol i'r cynnig ac felly os oes gan unrhyw un unrhyw bryderon gellir ymdrin â'r rhain mewn dull cadarnhaol. Fe fydd yr Awdurdod Lleol yn dilyn y canllawiau fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.
Y galw am y ddarpariaeth yn lleihau.	Mae hyn yn annhebygol gan fod y galw am leoedd yn gorbwyso'r nifer o leoedd sydd ar gael ar hyn o bryd.
Integreiddio disgyblion i adeilad newydd yr ysgol.	Fe fydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r contractwr adeiladu llwyddiannus i sicrhau fod yna bontio ac integreiddio llyfn i'r adeilad newydd ar gyfer disgyblion a staff.

### Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ALNET 2018) ei chyflwyno yn Ionawr 2018 ac mae wedi ei gweithredu o fis Medi 2021. Mae Deddf ALNET 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol i gadw'r trefniadau ar gyfer cefnogi dysgwyr rhwng 0 a 25 oed gydag ADY o dan adolygiad ac ystyried a yw'r trefniadau hyn yn ddigonol. Mae'n cynnwys gofyniad statudol i gymryd camau rhesymol i greu system o gymorth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr gydag ADY.

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan integredig o fywyd yr ysgol. Fe ddaw'r mwyafrif o'r disgyblion o gartrefi lle mai Saesneg yw'r iaith gyntaf, fodd bynnag mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos lle caiff diwylliant a threftadaeth Gymreig eu cefnogi a'u dathlu. Mae cyfran o'r staff yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac felly caiff y Gymraeg ei defnyddio fel iaith cyfathrebu drwy'r ysgol.

Mae'r Llywodraethwyr a'r Uwch Dîm Arwain wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau Cymraeg yr holl staff ac maent yn darparu hyfforddiant i gyflawni hyn. Ni ddefnyddir y Gymraeg fel iaith cyfarwyddyd mewn unrhyw Gyfnod Allweddol na phwnc, ond mae'r ysgol yn croesawu disgyblion lle mai'r Gymraeg yw eu hiaith gyntaf ac mae'n darparu'r adnoddau angenrheidiol er mwyn iddynt gael mynediad i'r cwricwlwm cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Goblygiadau ariannol – Cyllid

Caiff Ysgol Plas Brondyffryn ei hariannu yn unol â fformiwla gyllido Cyngor Sir Ddinbych a bydd yn derbyn adnoddau dan yr un sail ag unrhyw ysgol arall o fewn y Cyngor Sir, yn seiliedig ar niferoedd disgyblion yr ysgol newydd a chyfleusterau.

Cyllideb refeniw ddirprwyedig 2022-23 ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn yw £3,491,922 a cyfran o'r gyllideb ar gyfer pob disgybl cyfwerth â llawn amser yw £26,059.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r gyllideb refeniw ddirprwyedig a AMCANGYFRIFIR o 2024/25, yn seiliedig ar Fformiwla Cyllideb yr Ysgol ar gyfer cyllidebau dirprwyedig ysgolion Arbennig. Mae'r niferoedd wedi eu seilio ar gynnydd cyson mewn disgyblion ar y gofrestr - 20 bob blwyddyn gyda 20% o'r rhain yn dod o leoliadau y Tu Allan i'r Sir.

	Y Gyllideb
Blwyddyn 1	£3,966,456
Blwyddyn 2	£4,302,870



## Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

Blwyddyn 3	£4,639,284
Blwyddyn 4	£4,975,698
Blwyddyn 5	£5,312,112

Fe fydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol a fforwm Cyllideb Ysgolion Sir Ddinbych i sicrhau fod pwysau costau yn cael eu diwallu ac nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar ysgolion eraill.

### Ariannu adeilad newydd yr ysgol

Mae hwn yn brosiect o fewn Band B rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru, rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif gynt. Amlinellwyd ymrwymiad i'r prosiect yma mewn Achos Amlinellol Strategol ddiwygiedig, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru fis Medi 2020. Roedd y rhaglen yn cynnwys dyraniad cyffredinol o £23.8 miliwn ar gyfer y prosiect.

Gan fod y prosiect hwn ar gyfer ysgol arbennig bydd Llywodraeth Cymru, yn amodol ar gymeradwyo'r achosion busnes perthnasol, yn darparu 75% o'r cyllid a'r gweddill yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Ddinbych yn unol ag ymrwymadau'r Cynllun Corfforaethol. Cyflwynwyd yr Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Ebrill 2022.

Bydd y prosiect yn defnyddio tir presennol ac felly ni fydd derbyniadau cyfalaf yn cael eu rhyddhau.

### Trefniadau derbyn

Caiff disgyblion eu derbyn i'r ysgol drwy'r Panel Derbyn sy'n cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn a sy'n cynnwys cynrychiolwyr o 6 awdurdod lleol Gogledd Cymru. Mae gan yr holl

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

ddisgyblion a gaiff eu derbyn i'r ysgol Ddatganiad o Angen Addysgol Arbennig yn dangos awtistiaeth fel y prif angen.

## Dewisiadau eraill a ystyriwyd

**Dewis 1 - Gwneud dim** Cynnal y sefyllfa bresennol - dim angen buddsoddiad ychwanegol a dim angen cynnig ar drefniadau'r ysgol, fodd bynnag byddai'r ysgol yn parhau dros 4 safle a byddai'r rhestr aros am leoedd yn yr ysgol yn parhau i gynyddu.

**Dewis 2 - Gwneud y lleiaf posibl** Clirio'r ôl-groniad o ran cynnal a chadw ym mhob safle - dewis cymharol rad, fodd bynnag byddai'r ysgol yn parhau dros 4 safle a byddai'r rhestr aros am leoedd yn yr ysgol yn parhau i gynyddu.

**Dewis 3 - Canolradd** Gwneud gwaith adnewyddu i gynyddu'r capasiti i 220 - roedd hyn yn edrych ar adnewyddu safle Lôn y Parc a defnyddio rhannau o Ysgol Uwchradd Dinbych i symud holl fyfyrwyr a staff Ysgol Plas Brondyffryn ar yr un safle. Roedd y dewis hwn ychydig yn rhatach na'r dewis a ffafriwyd a byddai'n cynyddu'r cyfanswm o leoedd disgyblion. Byddai'r dewis hwn yn dod â'r holl staff a disgyblion ynghyd ar un safle, fodd bynnag mae'n bosibl na fyddai dyluniad y gofod yn cyd-fynd â'r hyn y mae'r ysgol ei angen. Y prif bryder oedd sut y gallai'r adnewyddu ddigwydd gyda disgyblion o Ysgol Plas Brondyffryn ac Ysgol Uwchradd Dinbych ar y safle - fe fyddai yna darfu sylweddol ar ddarparu addysg i nifer fawr o ddisgyblion yn y ddau leoliad.

**Dewis 4 - Y dewis a ffafrir**- Darparu cyfleuster newydd i gynyddu'r capasiti i 220 ar safle newydd yn Ninbych. Y dewis hwn yw'r drutaf, fodd bynnag fe fydd yn diwallu'r galw am leoedd yn yr ardal ac fe fydd yr adeilad yn addas ar gyfer dysgu yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif. Mae'r safle arfaethedig eisoes yn eiddo i'r Awdurdod Lleol ac mae'n parhau yn nhref Dinbych, felly ni fydd yr amseroedd teithio i ddisgyblion yn sylweddol wahanol. Fe fydd hyn yn dod â'r holl ddisgyblion a staff ynghyd ar un safle. Fe fydd disgyblion yn gallu aros yn eu safle presennol tra bydd y gwaith adeiladu yn digwydd ac felly ni fydd yna darfu ar eu haddysg mewn unrhyw ffordd.

# **Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220**

## **Asesiad o'r effaith ar gludiant**

Fe fydd cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â gofynion y Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod neu lle mae disgybl/dysgwr yn destun y weithdrefn asesu statudol lle mae ganddynt anawsterau dysgu y mae'r Awdurdod Lleol yn eu hystyried sy'n gwneud cludiant yn 'angenrheidiol'. Fe fydd asesiadau yn destun adolygu rheolaidd. Fe fydd y math o gludiant a ddarperir a'i natur yn cael ei bennu gan Asesiad Risg.

## **Sut fydd y cynnig yn effeithio ar staff**

O ganlyniad i'r galw presennol am leoedd rydym yn credu y bydd yr ysgol yn wynebu cynnydd yn y nifer o ddisgyblion pan fydd yr adeilad newydd yn agor yn niwedd 2024. Fe fydd angen mwy o staff ar yr ysgol o ganlyniad ond rydym yn credu fod yna ddigon o amser i gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn gan weithio gydag AD i sicrhau y bydd yr ysgol yn barod i ddarparu'r adnoddau angenrheidiol sydd eu hangen.

## **Derbyniadau cyfalaf**

Ni fydd yna unrhyw dderbyniadau cyfalaf o'r cynnig hwn gan fod y safleoedd presennol yn rhannu gyda chyfleusterau eraill. Fe fydd dewisiadau ar gyfer ailddefnyddio'r safleoedd yn cael eu hystyried ymhellach gan gynnwys y defnydd o'r ddarpariaeth uwchradd yn Lôn Parc gan eu cymdogion Ysgol Uwchradd Dinbych.

## **Effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg**

Fel nodwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i gyhoeddi asesiad o'r effaith ar y Gymuned, Cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Mae'r asesiad llawn i'w weld yn Atodiad 2.

Mae'r prif elfennau cadarnhaol, sy'n codi o'r asesiad o effaith, yn ymwneud â'r ddarpariaeth addysgol - mae darparu gwell cynnig addysgol yn cynrychioli cyfle i gryfhau addysg Gymraeg yn yr ardal ac o ganlyniad cryfhau'r Gymraeg.

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

## Cydraddoldeb

Fel nodwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i gyhoeddi asesiad o'r effaith ar y Gymuned, Cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Gallwch ddarganfod hwn ar y wefan - <https://countyconversation.denbighshire.gov.uk/projectcy/680>

Yn gyffredinol mae'r effaith o'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn gadarnhaol. Mae yna nifer o ystyriaethau effaith nad yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith arnynt gan fod yr ysgol wedi ei nodi fel ysgol Arbennig.

Y prif elfennau cadarnhaol o'r asesiad yw'r cynnydd yn y nifer o leoedd disgyblion a fyddai'n dod yn sgil y cynnig ar gyfer y math yma o ddarpariaeth arbenigol. Bydd yn galluogi'r holl staff a disgyblion i ddod ynghyd ar un safle a bydd hefyd yn gyfleuster y gall y gymuned ei ddefnyddio y tu allan i oriau arferol.

## Yr effaith ar y gymuned

Fel nodwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i gyhoeddi asesiad o'r effaith ar y Gymuned, Cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Mae'r asesiad llawn i'w weld yma: <https://countyconversation.denbighshire.gov.uk/projectcy/680>

Yn gyffredinol fe fydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gofalwyr a'u teuluoedd. Mae'r cynnydd arfaethedig wedi ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn ogystal â'r galw am leoedd.

Mae gan yr ysgol ddyhead am i'r adeilad newydd fod yn hygyrch i'r gymuned y tu allan i oriau arferol ac fe fydd angen iddynt nodi unrhyw fylchau y gallent o bosibl eu llenwi yn nhermau'r cynnig yn y dref.

Trwy gydol y cyfnod ymgynghori pe nodir unrhyw effeithiau a gaiff eu cyfiawnhau fe fydd yr asesiad o effaith yn cael ei adolygu a bydd mesurau yn cael eu hystyried fel bod unrhyw effaith yn cael ei leihau gymaint â phosibl.

# **Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220**

## **Cynaliadwyedd**

Fe fydd y cynnig yn gwella cynaliadwyedd y ddarpariaeth addysg yn nhermau'r mathau hyn o leoedd arbenigol yn y Sir.

Mae'r sefyllfa bresennol yn yr ysgol gyda'i capasiti cyfyngedig yn golygu nad yw disgyblion sydd angen y ddarpariaeth hon yn cael mynediad i'r ddarpariaeth. Fel y crybwyllwyd mae effaith y pandemig eisoes yn cael ei deimlo gydag oedi o ran asesiadau, fodd bynnag fel Awdurdod Lleol rydym yn credu y bydd y cynnydd hwn mewn capasiti mewn adeilad hyblyg yn sicrhau cynaliadwyedd yr ysgol yn y blynyddoedd i ddod.

## **Y camau nesaf - Sut i leisio eich barn**

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch chi rannu eich safbwyntiau gyda ni. Wedi ei atodi gyda'r cynnig ymgynghori hwn mae ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Gallwch lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd atom i'r cyfeiriadau isod.

Gallwch anfon sylwadau atom drwy e-bost. Y cyfeiriad e-bost ar gyfer yr ohebiaeth yw:

[moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk](mailto:moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk)

Gallwch weld y ffurflen a'i chyflwyno ar-lein:

<https://countyconversation.denbighshire.gov.uk/projectcy/680>

Dylid anfon ymatebion mewn llythyr at: Moderneiddio Addysg, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ

**Mae'n rhaid i'r holl ymatebion gael eu derbyn erbyn Dydd Llun 27 Mehefin 2022 fan bellaf.**

**Ni fydd sylwadau'n cael eu trin fel gwrthwynebiadau ar y cam hwn.**

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

### Yr adroddiad ymgynghori

O fewn 13 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion (ac ym mhob achos cyn cyhoeddi'r cynigion), bydd yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori a fydd yn:

- Crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion;
- Ymateb trwy eglurhad, gwelliant i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi.
- Amlinellu safbwynt Estyn o ran rhinweddau cyffredinol y cynnig fel y nodwyd yn eu hymateb i'r ymgynghoriad.

Fe all yr adroddiad ymgynghori hefyd wneud argymhellion - er enghraifft, pe byddai'r Awdurdod Lleol yn mynd ymlaen â hyn, h.y. cyhoeddi'r cynigion fel yr ymgynghorwyd arnynt gydag unrhyw addasiadau priodol, i roi'r gorau i'r cynigion a chadw'r sefyllfa bresennol neu adolygu'r cynigion a gwneud newidiadau sylweddol ac ail ymgynghori.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod unrhyw safbwyntiau a fynegir gan blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan y cynigion yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad ymgynghori a'i fod yn cael ei wneud yn hygyrch iddynt.

Fe fydd yr adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi'n electronig, ar wefan Cyngor Sir Ddinbych, a hefyd bydd yr hysbysiad yn cael ei arddangos ym mynedfa'r ysgol. Fe fydd copïau caled ar gael ar gais.

### Y broses statudol

Mae'r broses ymgynghori yn amodol ar ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, dogfen rhif 011/2018.

# **Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220**

Yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad hwn, fe fydd yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad a fydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Fe fydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym Medi 2022.

Os bydd yr argymhelliad yn cael ei dderbyn yna bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod yn dechrau. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a bydd ar gael ar wefan y Cyngor.

## **Y Cyfnod Ymgynghori**

Fe fydd y cyfnod ymgynghori yn weithredol o **17 Mai 2022** tan **27 Mehefin 2022**.

**NI FYDD ymatebion a gaiff eu derbyn yn ystod y cyfnod hwn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau. Bydd angen cyflwyno ymatebion pellach yn ystod yr amserlen a gyhoeddwyd ar gyfer yr 'Hysbysiad Statudol' (yn amodol ar gyhoeddi'r Hysbysiadau Statudol) os yw'r ymgynghoreion yn dymuno cyflwyno gwrthwynebiad i'r cynigion.**

## **Cyhoeddi hysbysiadau statudol**

Mae hyn yn amodol ar gymeradwyo'r Adroddiad Ôl Ymgynghori sydd i'w gyflwyno i'r Cabinet ym Medi 2022.

## **Penderfynu ar y cynigion**

Pe byddai'r Awdurdod Lleol yn mynd ymlaen gyda chyhoeddi'r hysbysiad statudol fe fydd canlyniadau'r hysbysiad statudol yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod lleol ym mis Tachwedd 2022. Bydd yr awdurdod lleol wedyn yn asesu'r broses ymgynghori ac yn penderfynu p'run ai i weithredu'r cynnig.

## **Hysbysu ynglŷn â'r penderfyniad**

Yn ddibynnol ar fynd ymlaen ag unrhyw gynnig fe fydd hysbysiad ynglŷn â phenderfyniad ar gael i'r holl ymgynghoreion. Fe fydd yr hysbysiad hwn hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan

## **Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220**

Cyngor Sir Ddinbych, yn ogystal fe fydd yr hysbysiad yn cael ei arddangos ym mynedfeydd yr ysgol cyn gynted â phosibl yn dilyn y penderfyniad.



# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

## Atodiad 1- Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn ffurfiol

Cynnig yw hwn i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220. Fe fydd yr ysgol yn symud i gyfleuster newydd sbon wedi ei adeiladu'n bwrpasol yn nhref Dinbych i alluogi'r cynnydd.

Fe hoffem glywed eich safbwyntiau yn ymwneud â'r cynnig. Fe allwch fynegi eich safbwyntiau drwy'r dulliau canlynol;

- Os ydych yn cael mynediad i'r ddogfen hon ar-lein yna cliciwch yma <https://countyconversation.denbighshire.gov.uk/projectcy/680> i gwblhau'r arolwg ar-lein;
- Os ydych wedi derbyn copi caled o gynnis yr ymgynghoriad yna dychwelwch eich ffurflen ymateb i Moderneiddio Addysg, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ, erbyn **27 Mehefin 2002** fan bellaf.
- Ewch i'n gwefan: <https://countyconversation.denbighshire.gov.uk/projectcy/680> a dilynwch y ddolen i'r arolwg;
- Neu fe allwch sganio'r ffurflen sydd wedi ei hatodi a'i hanfon mewn e-bost atom i'r cyfeiriad hwn [moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk](mailto:moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk)
- Anfonwch eich ymatebion i ni erbyn **27 Mehefin 2022**.

### Hysbysiad preifatrwydd:

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn ddienw, neu os hoffech dderbyn diweddariadau ar y cynigion wrth i ni symud ymlaen â nhw, bydd gennych yr opsiwn i ddarparu eich manylion cyswllt. Bydd unrhyw fanylion a roddwch mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ond yn cael eu defnyddio gan Gyngor Sir Ddinbych at ddibenion cysylltu â chi am yr ymgynghoriad hwn yn benodol. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir Ddinbych yn defnyddio eich data personol, ewch i: [www.sirddinbych.gov.uk/preifatrwydd](http://www.sirddinbych.gov.uk/preifatrwydd)

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

## 1. A ydych chi o blaid y cynnig?

(Ticiwch un blwch)

<b>Ydw</b>	
<b>Nac ydw</b>	

## 2. Beth yw eich diddordeb mewn/ perthynas ag Ysgol Plas Brondyffryn?

Rwy'n ddisgybl yn yr ysgol	
Rwy'n ddisgybl yn yr ysgol	
Rwy'n athro neu'n aelod arall o staff yr ysgol	
Rwy'n breswlydd lleol (Dinbych)	
Hoffwn fod yn ddisgybl yn yr ysgol, ond rwy'n mynd i rywle arall ar hyn o bryd	
Rwy'n rhiant/gofalwr darpar ddisgybl	

# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

Arall	
-------	--

**3. Rhowch sylwadau yn ymwneud â'r cynnig ac unrhyw awgrymiadau ar gynigion eraill y dylid eu hystyried yn y blwch isod:**

**Eich sylwadau**

--

## 4. Eich manylion

<b>Enw:</b>	
<b>Cyfeiriad:</b>	
<b>E-bost:</b>	
<b>Rhif Ffôn:</b>	

**Ticiwch y blwch os hoffech gael gwybod pan gyhoeddir yr adroddiad ymgynghori** ☐

**Nodwch:** Mae'r daflen hon ar gyfer dibenion ymgynghori yn unig. Bydd yr holl sylwadau yn cael eu hystyried o fewn y broses ymgynghori, fodd bynnag, ni fydd ymatebion unigol yn cael eu darparu.